# DYDD MIWSIG CYMRU

**09.02.2024**

## Sut gall eich ysgol gymryd rhan yn Dydd Miwsig Cymru?

### Beth yw Dydd Miwsig Cymru?



Mae Dydd Miwsig Cymru yn ddigwyddiad blynyddol i ddathlu pob math o fiwsig Cymraeg – o roc, pop, gwerin, i electronica, hip hop a phopeth arall dan haul. Mae'r diwrnod yn annog pobl o bob oed i ddarganfod y sîn fywiog o fiwsig Cymraeg sydd gennym ni.

Dydd Gwener, 9 Chwefror 2024 yw'r nawfed Dydd Miwsig Cymru, felly beth am ymuno yn y dathliadau gyda eich ysgol? Mae gwrando ar fiwsig Cymraeg yn ffordd wych o ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a thu allan i'r dosbarth, a gall fod yn ffordd i rieni sydd ddim yn siarad Cymraeg ddod yn nes at fyd Cymraeg eu plentyn mewn ffordd hwyliog a hygyrch. Mae miwsig i bawb. Mae rhai syniadau sut i gymryd rhan a sut gall disgyblion fwynhau miwsig yn eu cartrefi, wedi eu cynnwys isod.

### Beth all fy ysgol ei wneud?

Mae digonedd o ffyrdd i ysgolion gymryd rhan i ddathlu Dydd Miwsig Cymru ar ddydd Gwener, 9 Chwefror. Dyma ambell syniad:

| Ysgolion Cynradd | Ysgolion Uwchradd |
| --- | --- |
| **Symud:** Chwaraewch ganeuon Cymraeg a gofynnwch i'r dosbarth symud i'r gerddoriaeth. Anogwch nhw i greu eu symudiadau eu hunain wedi'u hysbrydoli gan y synau a'r geiriau. | **Creu Rhestr Chwarae:** Lluniwch restr chwarae sy'n cynnwys eich hoff ganeuon Cymraeg, yn cynrychioli genres a chyfnodau gwahanol. Rhannwch gyda dosbarthiadau eraill a'u hannog i ddarganfod cerddoriaeth newydd. |
| **Gwrando:** Rhowch rai o restrau chwarae Dydd Miwsig Cymru ar Spotify, YouTube neu raglen Miwsig y Siarter Iaith ar BBC Sounds. | **Profi:** Rhowch wahoddiad i gerddor Cymraeg lleol, label recordio neu drefnydd gigs i rannu eu profiadau o weithio yn y sin gerddoriaeth Gymraeg. |
| **Dylunio:** Gosodwch her i ddylunio poster ar gyfer gig neu defnyddiwch ein templedi poster a gofynnwch iddynt ysgrifennu beth hoffent ei wneud i ddathlu Dydd Miwsig Cymru 2024. | **Dylunio Clawr Albwm:** Beth am greu celf weledol o gân neu albwm? Meddyliwch yn weledol - pa ddelweddau, lliwiau a symbolau sy'n cynrychioli'r gerddoriaeth a'i neges orau. |

**Cewri Cymru:** Ymunwch â'r gyfres yma o sesiynau addysgol ar-lein sy'n taflu goleuni ar unigolion nodedig sydd wedi manteisio ar eu gallu i siarad Cymraeg.

**Cwis Bop:** Beth am greu cardiau fflach cerddoriaeth a gofyn i'r disgyblion baru teitlau'r caneuon â'r artistiaid?

**Creu:** Rhannwch y disgyblion yn grwpiau a rhowch ddeunyddiau wedi'u hailgylchu iddynt greu eu hofferynnau syml eu hunain. Anogwch nhw i fod yn greadigol ac arbrofi gyda synau gwahanol cyn ychwanegu geiriau Cymraeg.

**Her Mashup Genre:** Dewiswch ddau genre cerddoriaeth gyferbyniol a heriwch y myfyrwyr i greu cân fer sy'n cyfuno eu helfennau cerddorol (offerynnau, rhythmau, lleisiau). Defnyddiwch offerynnau neu feddalwedd cyfansoddi os yw ar gael.

**Ffeil Ffeithiau:** Beth am greu dogfen am eich hoff artist neu fand? Tynnwch lun neu dewch o hyd i luniau ohonyn nhw, rhestrwch eu caneuon a gwnewch ychydig o ymchwil i rai ffeithiau diddorol amdanyn nhw.

**Ail-ddychmygu Geiriau:** Addaswch eiriau cân Gymraeg i fynd i'r afael â mater neu thema gyfoes a pherthnasol, gan gadw ysbryd y gerddoriaeth wreiddiol. Cyflwynwch y geiriau wedi'u hailweithio neu eu perfformio'n greadigol.

**Canu:** Ymunwch â hwyl Carioci Seren a Sbarc!

**Cyfansoddi:** Beth am greu cân Gymraeg gan ddefnyddio ein cynllun gwers?

**Chwilair:** Allwch chi ffeindio'r geiriau sy'n ymwneud â cherddoriaeth?

**Curo'r Curiad:** Chwaraeewch ddarn byr o gân, a gofynnwch i'r chwaraewyr ddyfalu'r rhythm cywir trwy dapio.

**Dawns:** Dathlwch gyda disgo Dydd Miwsig Cymru i ddisgyblion a staff yn ystod amser cinio.

**Adnabod yr Alaw:** Chwaraeewch bytiau o ganeuon Cymraeg a gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu'r teitl a'r artist.

Mae gweithgareddau hwyliog y gallwch eu hargraffu i helpu i ddathlu'r diwrnod ar gael hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Chwilair yn llawn geiriau sy'n ymwneud â cherddoriaeth.
- Taflenni cysylltu'r dotiau... pwy fydd yn cael eu datgelu ar y diwedd?
- Taflen liwio Seren a Sbarc i'w chwblhau wrth wrando ar eu rhestr chwarae





Rhannwch eich dathliadau Dydd Miwsig Cymru gyda ni. Anfonwch fanylion eich cynlluniau, neu postiwch neges ar y cyfryngau cymdeithasol gyda'r hashnod **#DyddMiwsigCymru** ac fe wnawn ni rannu gyda'n dilynwyr.

Negeseuon templed ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol:

| Cymraeg | English |
|---|---|
| Rydyn ni'n ymuno â pharti #DyddMiwsigCymru ar ddydd Gwener 9 Chwefror drwy [...]<br><br>@Miwsig_ #Miwsig | We are joining the #DyddMiwsigCymru parti on Friday 9 February by [...]<br><br>@Miwsig_ #Miwsig |
| Pop. Roc. Rap. R&B. Jazz. Hip hop. Mae pob math o fiwsig yn cael ei greu yn Gymraeg ac rydyn ni'n edrych ymlaen at eu dathlu fel rhan o #DyddMiwsigCymru ar ddydd Gwener 9 Chwefror.<br><br>@Miwsig_ #Miwsig | Pop. Rock. Rap. R&B. Jazz. Hip hop. All sort of #miwsig is being made in the Welsh language and we can't wait to celebrate it all for #DyddMiwsigCymru on Friday 9 February.<br><br>@Miwsig_ #Miwsig |
| I ddathlu #DyddMiwsigCymru fory, rydyn ni'n [.....]<br><br>@Miwsig_ #Miwsig | To celebrate #DyddMiwsigCymru tomorrow, we're [....]<br><br>@Miwsig_ #Miwsig |
| Mae'n hoff ganeuon Cymraeg ni yn chwarae ar lŵp heddiw i ddathlu #DyddMiwsigCymru! Beth yw eich hoff gân Cymraeg chi?<br><br>@Miwsig_ #Miwsig | Getting into the rhythm today for #DyddMiwsigCymru! Which Welsh language songs do you love putting on repeat?<br><br>@Miwsig_ #Miwsig |



Rydyn ni'n gwrando ar diwns Cymraeg i ddathlu #DyddMiwsigCymru.Gallwch chi wneud hefyd!

https://linktr.ee/Miwsig

@Miwsig_ #Miwsig

We're listening to Welsh language #Miwsig to help us celebrate #DyddMiwsigCymru. You can do the same by listening to one of these playlists!

https://linktr.ee/Miwsig

@Miwsig_ #Miwsig

## Brandio

Mae gwaith celf Dydd Miwsig Cymru 2024 ar gael i'w lawrlwytho **YMA.**

## Cadwa mewn cysylltiad

Dilyna ni ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i gael gwybod y diweddaraf am ddigwyddiadau Dydd Miwsig Cymru, pa fiwsig newydd sy'n cael ei ryddhau a sut i gymryd rhan.

Facebook @Miwsig
Twitter @Miwsig_
Instagram @Miwsig_
TikTok @cymraeg_
Youtube @Cymraeg

## Beth am sgwrs?

Os wyt ti eisiau sgwrs am sut i ddathlu Dydd Miwsig Cymru, neu eisiau asedau marchnata cysyllta â **martha.owen@alaw.cymru** a **llinos.williams@alaw.cymru**.

